EUR(2)02-04(min)

# Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## COFNODION

Dyddiad: 26 Chwefror 2004

Amser: 09.00

Lleoliad: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

Aelodau

Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol:

| | |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Llafur: Delyn |
| Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwr: Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth:

| | |
|---|---|
| Alun Cairns | Ceidwadwr: Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |

| | |
|---|---|
| Janet Davies | Plaid Cymru: Gorllewin De Cymru |
| Tamsin Dunwoody-Kneafsey (dirprwy) | Llafur: Preseli Sir Benfro |
| Lisa Francis | Ceidwadwr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Elin Jones | Plaid Cymru: Ceredigion |
| Lyn Neagle | Llafur: Tor-faen |
| Jenny Randerson | Democrat Rhyddfrydol: Canol Caerdydd |

Gwahoddedigion Sefydlog

| | |
|---|---|
| Janet Royall | Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| Janet Davies AC | Pwyllgor y Rhanbarthau |

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Manfred Beschel | Chef De L'Unité, DG Regio C1 (Iwerddon a'r DU), Y Comisiwn Ewropeaidd |
| Neil Bond | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Cronfeydd Ewropeaidd Rhanbarthol a Datganoli, Yr Adran Masnach a Diwydiant |
| John Neve | Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Cronfeydd Ewropeaidd Rhanbarthol a Datganoli, Yr Adran Masnach a Diwydiant |
| Mark Parkinson | Tim Rhanbarthau a Gwledydd Datganoledig, Pennaeth Cangen Ddatganoli, Trysorlys Ei Mawrhydi |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jackie Brown | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Ifona Deeley | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Swyddfa Brwsel Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

Ysgrifenyddiaeth

| | |
|---|---|
| Ysgrifenyddiaeth | |
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1 - Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau buddiant (09:00)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Bourne AC, aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, a chan Andrew Davies AC a Brian Gibbons AC, aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Roedd Tamsin Dunwoody-Kneafsey AC yn bresennol fel dirprwy i Brian Gibbons AC. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan y gwahoddedigion sefydlog i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, Jill Evans ASE, Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE, Eurig Wyn ASE, a Rose D'Sa (ECOSOC). Roedd Cecile Chong yn mynychu fel sylwedydd ar ran Glenys Kinnock ASE ac Eluned Morgan ASE.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## Eitem 2 - AR Y CYD Â'R PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH - Diwygio'r polisi Cronfeydd Stwrythurol a chydlyniant (09.00-10.30)

Papurau:

EUR(2) 02-04(p01) - 3rd Adroddiad ar gydlyniant

EUR(2) 02-04(p02) - Papur ar gyd-destunau ariannol

EUR(2) 02-04(p03) - Datganiad Yr Adran Masnach a Diwydiant ar 11 Rhagfyr 2003

EUR(2) 02-04(p04) – Ymateb Yr Adran Masnach a Diwydiant i'r Pwyllgor ynghylch cynigion polisi rhanbarthol

2.1 Nododd y Cadeirydd bod yr aelodau wedi derbyn papur briffio gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynasâ'r eitem.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Manfred Beschel o DG Regio C1 y Comisiwn Ewropeaidd ar ran Graham Meadows, a fethodd â mynychu'r cyfarfod oherwydd ei iechyd. Cyflwynodd siocledi o Frwsel fel anrheg i'r Pwyllgor.

2.3 Cafwyd cyflwyniad gan Mr Beschel yn rhoi amlinelliad o farn y Comisiwn ar ddiwygio'r polisi rhanbarthol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn dadansoddi'r sefyllfa ranbarthol, a chynigion ynghylch sut y gallai polisïau cenedlaethol a chymunedol gyfrannu tuag at fwy o gydlyniant o dan y polisi cydlyniant diwygiedig ar ôl 2007. Roedd yn disgrifio effaith y polisi cydlyniant a'r gwerth am arian a oedd yn ei gynnig. Y sylfaen ar gyfer polisi cydlyniant y dyfodol oedd y papur 'safbwyntiau ariannol' - Building Our Common Future: Policy challenges and budgetary means of the Enlarged Union 2007-2013. Roedd y Comisiwn wedi cyflwyno cynigion uchelgeisiol ond realistig o fewn 1.24 y cant o Incwm Cenedlaethol Crynswthyr Undeb, gydag 1.22 y cant yn ymrwymiadau ac 1.14 y cant yn daliadau.

2.4 Roedd y ddogfen Safbwyntiau Ariannol l yn pennu blaenoriaethau gwleidyddol clir ar gyfer y Comisiwn a chynnydd mewn gwariant yn y meysydd hynny:

- datblygu cynaliadwy (dyblu gwariant ar gystadleuaeth a 32 y cant yn fwy ar gydlyniant ar gyfer twf a chyflogaeth)
- cadw a rheoli adnoddau (3 y cant yn fwy o wariant)
- canolbwyntio o'r newydd ar ddinasyddiaeth, rhyddid, diogelwch a chyfiawnder (dyblu'r gwariant)
- yr UE fel partner byd-eang (cynnydd o 40 y cant yn y gwariant)

Byddai'r pwyslais mwyaf ar waith ymchwil ac ar y gymdeithas wybodus, a byddai cynnydd priodol mewn gwariant ar gydlyniant oherwydd yr ehangu.

2.5 Ym mhrisiau 2004, yr uchafswm cyllidebol ar gyfer ymrwymiadau blynyddol yn 2000-2006 oedd 108.5 biliwn ewro ar gyfartaledd, gyda 37 biliwn Ewro ar gyfer gweithredu strwythurol. Ar gyfer blynyddoedd 2007-2013, roedd y papur Safbwyntiau Ariannol yn rhoi uchafswm o 146.4 biliwn ar gyfer ymrwymiadau, gyda 48 biliwn Ewro ar gyfer gweithredu strwythurol ar wahân i ddatblygu gwledig.

2.6 Ar gyfer 2007-2013, roedd y polisi cydlyniant yn cynrychioli 34 y cant o gyllideb yr UE (336 biliwn Ewro ar gyfer 2007-2013), a oedd oddeutu 0.41 y cant o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth yr Undeb, yn codi i 0.45 y cant wrth gynnwys datblygu gwledig a physgodfeydd a chronfeydd. Cafodd y gyllideb ei rhannu’n gwbl gyfartal rhwng Aelod Wladwriaethau presennol ac aelodau newydd, gyda'r gyllideb yn lleihau i'r aelodau presennol ac yn codi i'r aelodau newydd, a thros dri chwarter y gyllideb (78 y cant) ar gyfer rhanbarthau ac Aelod Wladwriaethau nad oedd wedi eu datblygu i'r un graddau ag eraill (rhanbarthau wedi eu cydgyfeirio).

2.7 Efallai y bydd y gyfran bresennol o'r gyllideb ar gyfer seilwaith (41 y cant) yn cynyddu ar gyfer y cyfnod 2007-2013.

2.8 Roedd manteision y polisi ar gydlyniant yn cynnwys cynyddu buddsoddiad cyhoeddus a phreifat, cynnyddu'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (cydgyfeirio), creu swyddi, cynyddu’r cyfalaf dynol a chryfhau llywodraethu lleol a rhanbarthol, gyda gwarant ariannol o saith mlynedd i ganiatáu cynllunio canol tymor ac i ennyn hyder. Rhaglen 2.5 biliwn yr UE yng Nghymru oedd y rhaglen fwyaf yn y DU. Y bwriad oedd sbarduno ariannu yn y sector preifat a chynnwys rhanddeiliaid lleol drwy ddefnyddio

egwyddor partneriaeth, i annog dyfeisgarwch a hybu gweithredu polisïau'r UE trwy ddarparu'r cyllid ar eu cyfer.

2.9 Bydd yr ehangu yn golygu bod poblogaeth yr UE yn tyfu o 380 i 454 miliwn, ac i 485 miliwn mewn UE 27. Byddai dyfodiad yr aelod wladwriaethau newydd yn golygu twf mwy deinamig - o 2.5 y cant i 4 y cant, ond byddai'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yn gostwng 12.5 y cant mewn UE 25, a 18 y cant mewn UE 27, a fyddai'n cael effaith ar pa mor gymwys yw Cymru i dderbyn arian. Byddai'r boblogaeth mewn ardaloedd cydgyfeirio, a elwir yn ardaloedd Amcan Un ar hyn o bryd, yn cynyddu o 84 miliwn i 123 miliwn, a byddai'r bwlch datblygu'n dyblu - y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth mewn ardaloedd Amcan 1 sy'n 69 y cant ar gyfartaledd yn gostwng i 46 y cant mewn UE 25. Tyfodd y raddfa gyflogi yn yr UE 15 o 60 i 64 y cant rhwng 1996 a 2002, tra bod y raddfa gyflogi yn yr aelod wladwriaethau newydd yn 56 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roeddent yn uwch yn 1999 (59 y cant).

2.10 Cafodd cysyniad newydd o bartneriaeth gynhwysol ar gyfer cydlyniant ei argymell. Byddai gan y bartneriaeth newydd flaenoriaethau clir yn seiliedig ar agendâu Lisbon a Gothenburg. Byddai'n cynnwys yr holl ranbarthau Ewropeaidd, a fyddai'n cyfrannu'n sylweddol at gydlyniant - roedd yn hanfodol i bawb fod yn rhan o'r bartneriaeth. Roedd yn arwydd o undod gyda'r Aelod Wladwriaethau newydd.

2.11 Roedd tri blaenoriaeth ar gyfer y polisi rhanbarthol diwygiedig: cydgyfeirio, cystadleuaeth a chydweithrediad. Byddai cydgyfeirio yn cymeryd 78 y cant o'r gyllideb. Byddai hyn yn cynnwys;

- rhanbarthau gyda Chynnyrch Mewnwladol Crynswth UE 25 sy'n llai na 75 y cant y pen ar gyfartaledd
- rhanbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu' gyda Chynnyrch Mewnwladol Crynswth UE 15 sy'n llai na 75 y cant y pen ar gyfartaledd, ond yn fwy na 75 cant o UE 25.
- Gwladwriaethau gyda llai na 90 y cant o Incwm Cenedlaethol Crynswthy pen (sy'n gymwys ar gyfer y gronfa gydgyfeirio).
- Byddai rhaglen hygyrchedd arbennig hefyd ar gyfer y rhanbarthau sydd o dan anfantais o ganlyniad i ffactorau megis daearyddiaeth, topograffeg a phoblogaeth isel.

2.12 Ni allai'r Comisiwn ddarparu ffigurau ariannol pendant ar gyfer Cymru ar hyn o bryd gan y byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch cymhwyster ar ddiwedd 2005, yn seiliedig ar y ffigurau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth sydd ar gael bryd hynny. Ni ellid ystyried ffigurau cyfredol felly heb gael y ffigurau ar gyfer y blynyddoedd diweddarach. O ystyried y ffigurau ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a chan gymryd na fydd unrhyw newid dramatig yn y tueddiadau presennol, byddai'r rhanbarth yn gymwys fel rhanbarth sydd ar ei golled oherwydd effaith ystadegol ehangu sy'n derbyn cymorth ariannol sylweddol, a heb fod yn wahanol iawn i ranbarth Amcan 1 craidd neu ranbarth 'cydgyfeirio'. Fodd bynnag, mae'r lefel o arian sydd ar gael yn dibynnu ar drafodaethau ynghylch y cynigion o ran y safbwyntiau ariannol; byddai'r sefyllfa yng Nghymru yn ffafriol iawn pe byddai'r cynigion yn cael eu mabwysiadu , fel arall, nid oedd yn bosib gwybod beth fyddai'r sefyllfa.

2.13 Roedd yr ail amcan - cystadleuaeth ranbarthol a chyflogaeth - yn cymryd 18 y cant o'r gyllideb

(Amcanion 2 a 3 presennol). Byddai'n seiliedig ar agenda Lisbon a byddai’r prosiectau isadeiledd yn derbyn cymorth ariannol os oedd modd iddynt helpu i gwrdd ag amcanion ar gyfer cystadleuaeth ranbarthol - er enghraifft gwella hygyrchedd y farchnad ar gyfer busnesau bach a chanolig. Roedd elfen ddinesig gref yn ddymunol, gan gynnwys gwneud rhanbarthau yn gyfrifol am ddinasoedd, ond ni fyddai unrhyw fenter newydd ar gyfer hyn.

2.14 Roedd y trydydd amcan - cydweithredu rhwng ardaloedd - yn cynrychioli 4 y cant o'r gyllideb. Byddai'n cynnwys rhywfaint o ddilyniant i lwyddiant Interreg, ac roedd 3 math o gydweithredu - traws-ffiniol (80 y cant), rhyng-genedlaethol (15 y cant) a rhyng-ranbarthol (5 y cant). Dylai Cymru edrych yn fanwl ar sut y gallai wneud y gorau o'r amcan hwn, gan ei fod yn cynnwys cyllid ar gyfer ffiniau morwrol a rhywfaint o hyblygrwydd. Yr Aelod Wladwriaethau fyddai’n pennu’r ardaloedd ffiniol yr oeddent yn dymuno eu cyflwyno. Nid oedd y Comisiwn am bennu pa ardaloedd a allai elwa ac roedd hwn yn un maes lle y gallai Cymru baratoi ei hun i elwa ar raglenni ar ôl 2007.

2.15 Byddai'r egwyddorion gweithredu a ystyrid yn llwyddiannus yn y gorffennol yn parhau ar ôl 2007. Roeddent yn cynnwys rhaglennu nifer o weithiau mewn blwyddyn, partneriaeth, gwerthuso, cyd-gyllido (arian cyfatebol), a rhannu cyfrifoldeb. Byddai'r rheol N+2 (diymrwymo) a'r system o arian ymlaen llaw yn parhau.

2.16 Roedd y mesurau symleiddio yn cynnwys lleihau nifer yr offerynnau o 6 i 3 a chynnig rhaglenni un gronfa yn unig. Byddai'r cyfrifoldebau yn cael eu rhannu yn fwy amlwg a byddai nifer y camau o fewn y rhaglenni yn cael eu lleihau. Byddai agwedd mwy strategol tuag at y broses a thryloywder mwy gwleidyddol. Byddai'r Comisiwn yn llunio papur cyffredinol gyda phenoddau i wledydd i'w cymeradwyo yn yCyngor, ar ôl derbyn barn Senedd Ewrop. Byddai'r Comisiwn hefyd yn llunio adroddiadau cynnydd blynyddol i'r Cyngor i'w harchwilio gan Senedd Ewrop. Byddai strwythurau rheoli ariannol yn cael eu symleiddio hefyd, gyda'r Comisiwn yn rhan o'r lefel flaenoriaeth uchel ac nid ar y lefel mesur cyllid a thaliadau.

2.17 Byddai'r fforwm cydlyniant Ewropeaidd yn cyfarfod ym Mrwsel ar 10-11 Mai 2004, ac yna byddai'r Comisiynydd yn cyflwyno pecyn deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2004, i'w gymeradwyo erbyn diwedd 2005. Y nod oedd osgoi yr oedi cyn eu gweithredu fel a gafwyd ar ddechrau'r rhaglenni presennol.

2.18 Nid oedd y berthynas rhwng Ewrop a rhanbarthau'r DU o ran polisi rhanbarthol yn berthynas un ffordd. Roedd angen cymorth strategol ar ranbarthau'r DU gan Ewrop a chymorth i gyflawni prosiectau, ond roedd Cymru wedi cyfrannu tuag at y ddelwedd o bolisi rhanbarthol mewn rhannau eraill o Ewrop, a oedd yn gweld y DU fel arbenigwyr ar sut i weithredu rhaglenni. Byddai'n ddymunol gweld yr enghraifft hon o gydweithredu rhanbarthol yn dwyn ffrwythyn y dyfodol.

2.19 Rhoddodd John Neve o'r Adran Masnach a Diwydiant y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y sefyllfa ers mis Mehefin 2003 pan fu yr Adran Masnach a Diwydiant, Trysorlys Ei Mawrhydi a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn rhan o ymgynghoriad pedwar mis ar y cynigion

ynghylchfframwaith y DU a pholisi rhanbarthol modern. Bu'n cyfrannu at drafodaeth fywiog a heriol mewn digwyddiad ymgynghori yn Abertawe. Derbyniwyd a dadansoddwyd bron i 300 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystod yr haf, gan arwain at ddatganiad Patricia Hewitt ar 17 Medi, a ddaeth i'r casgliad mai'r fframwaith oedd y cyd-destun gorau i ddatblygu polisi rhanbarthol yr UE a'r DU yn y dyfodol, ac y byddai'r DU yn trafod yn y modd hwn.

2.20 Cafwyd cefnogaeth ddai'rcynigion, gyda rhai pobl yn eu herbyn, a'r mwyafrif yn gofyn am fwy o wybodaeth. Ar 11 Rhagfyr cafwyd datganiad arall gan y Gweinidog yn rhoi manylion ynghylch sefydlu a gweithredu'r fframwaith, y goblygiadau i gyllideb yr UE, a sut y byddai'r Llywodraeth yn sicrhau na fyddai Gwladwriaethau a rhanbarthauar eu colled. Cafwyd gwybodaeth bellach mewn llythyr i'r Pwyllgor ar 19 Rhagfyr. Rhwng y ddau ddatganiad roedd y Gweinidog Gwladol dros Ddiwydiant a'r Rhanbarthau, y Gwir Anrhydeddus Jacqui Smith AS, wedi cyflwyno datganiad ysgrifenedig ar y cyd o'r egwyddorion ar gyfer diwygio gyda Llywodraeth yr Iseldiroedd yng nghyfarfod anffurfiol y Gweinidogion yn Rhufain ym mis Hydref. Canolbwyntiwyd ar yr angen i gyflawni agenda Lisbon, pwysigrwydd manteisio cymaint â phosib trwy ganolbwyntio'r adnoddau ar yr aelod wladwriaethau tlotaf, a barnu y gellid cyflawni hyn gyda llawer llai na 0.45 y cant o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth yr Undeb. Yn gyffredinol, roedd y DU yn falch o'r canlyniad a'r casgliadau a gafwyd gan yr Arlywyddiaeth. Bu'n ddefnyddiol i ddatblygu'r drafodaeth ac i gydnabod pwysigrwydd diwygio'r system bresennol. Roedd pawb yn unfrydol y dylai'r 3ydd adroddiad ar gydlyniant fynd i'r afael â'r materion sy'n cael eu hamlinellu yn y datganiad o egwyddorion, ac ystyried y materion hynny. Cafodd y 3ydd adroddiad ar gydlyniant ei groesawu gan Lywodraeth y DU. Roedd y dadansoddi manwl yn ddefnyddiol, a bu'n gyfraniad pwysig i'r drafodaeth. Roedd y Llywodraeth yn dymuno asesu'r goblygiadau cyllidebol a buddai'n gwneud hynny yn unol â'r amcanion a benwyd yn ei fframwaith.

2.21 Roedd tri anhawster gyda chynigion y Comisiwn. Yn gyntaf y gost, a oedd yn anghyson gyda'r amcanion. Roedd Aelod Wladwriaethau eraill gan gynnwys Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Awstria a Sweden yn cytuno y dylid cyfyngu ar lefel yr Incwm Cenedlaethol Crynswth. Yn ail, nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i'r Aelod Wladwriaethau newydd - roedd y DU am weld mwy o sylw'n cael ei roi i'w cyllido hwy. Yn drydydd, roedd y DU am weld mwy o sylw'n cael ei roi i'r angen am gyllid i ychwanegu at werth - nid oedd yn teimlo bod y Comisiwn wedi cyflwyno'r achos ar gyfer hyn.

2.22 Roedd Llywodraeth y DU yn edrych ymlaen at weld rheoliadau drafft y Comisiwn ym mis Gorffennaf ac at gymryd rhan yn y broses o drafod cytundeb gyda'r Cyngor.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:

2.23 Roedd isadeiledd wedi bod yn flaenoriaeth uchel yng Nghymru ers amser hir a nododd yr Aelodau y byddai'r Comisiwn yn rhoi blaenoriaeth uwch iddo ar ôl 2007. Roedd y mentrau presennol a oedd yn ymwneud â seilwaith o fewn ariannu Amcan 1, megis seilwaith twristiaeth ac adfywio canol trefi, yn bwysig. Bu'r Adolygiad Canol Tymor yn ddull defnyddiol o nodi ardaloedd lle y gallai seilwaith penodol fod yn sbardun i'w wneud yn haws i gyrraedd marchnadoedd a chreu swyddi, a byddai'n rhaid i'r Comisiwn newid ei ymagwedd tuag at brosiectau o’r fath yn y dyfodol. Nid oes digon o arian ar gael i

ganiatáu prosiectau mawr megis traffyrdd neu feysydd awyr, dim ond mentrau seilwaith 'canolig' neu 'feddal' ar raddfa lai, megis parciau diwydiannol, buddsoddiad a hyfforddiant ariannol neu ddarpariaeth band eang ar raddfa fechan.

2.24 Er gwaethaf y ffaith y cafwyd rhywfaint o welliant, roedd yn parhau yn anodd i gael cymorth ariannol o'r sector preifat yng Nghymru. Mynegwyd pryderon ynghylch ble y deuai'r arian cyfatebol pe byddai'r sefyllfa economaidd yn gwaethygu yn y dyfodol. Roedd y Comisiwn yn cydnabod bod yr amgylchiadau economaidd wedi newid ers 2000 a bod buddsoddwyr preifat yn dueddol o fod yn fwy gofalus, ond roedd yn ceisio eu hannog. Roedd yn gadarnhaol iawn bod menter peirianneg ariannol Cyllid Cymru wedi cael cyllidwyr preifat i gymryd rhan, felly roedd tystiolaeth bod rhywfaint o gymorth o'r sector preifat. Pan fyddai'r gwledydd newydd yn dod yn aelodau o'r UE, byddai angen mwy nag erioed o fuddsoddiad preifat, a mynegwyd pryder bod rhai gwledydd newydd yn ei chael yn anodd i ddod o hyd i arian cyfatebol, er mwyn derbyn yr arian a oedd yn cael ei gynnig gan yr UE. Roedd yn broses anodd ond roedd yn hanfodol datblygu’r bartneriaeth rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus, ac roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Banc Buddsoddi Ewrop.

2.25 Pwysleisiodd John Neve ymrwymiad Llywodraeth y DU i ariannu polisi rhanbarthol fel a ddangoswyd yn y nod Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus a benwyd ar y cyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Yr Adran Masnach a Diwydiant a Thrysorlys Ei Mawrhydi i gael twf yn y rhanbarthau. Dylid cael mwy o bwyslais ar agenda Lisbon, ac amlinellwyd hyn yn ei fframwaith polisi. Roedd gan y Comisiwn a Llywodraeth y DU yr un agwedd tuag at bolisi rhanbarthol, ond roedd yn tueddu i wahaniaethu wrth drafod sut y dylid ei ariannu ar lefel yr UE ac ar lefel genedlaethol.

2.26 Roedd y Comisiwn am weld ariannu hael i ranbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu, ond byddai’r swm derfynol fel canran o arian Amcan 1 yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau ynghylch safbwyntiau ariannol. Roedd y Comisiwn am ei bennu mor uchel â phosibl.

2.27 Nid oedd y Comisiwn yn cytuno gyda honiad Llywodraeth y DU nad oedd diddordebau ac anghenion y gwledydd a oedd yn ymuno â'r UE yn cael eu hystyried gan eu bod yn derbyn dros 75 y cant o'r gyllideb. Roedd y Comisiwn wedi datgan y dylid pennu uchafswm i faint oedd yn cael ei roi i Aelod Wladwriaethau newydd, yn gysylltiedig â'u gallu i ddefnyddio symiau mawr o arian. Roedd y targedau gwario yn uchelgeisiol a byddai angen ymdrech anferth ar ran y rheolwyr gweinyddol yn yr Aelod Wlardwriaethau hynny. Dywedodd John Neve bod y Comisiwn wedi dweud y byddai'r arian yn cael ei rannu’n gwbl gyfartalac roedd am weld mwy o ganolbwyntio ar wledydd sy'n ymuno. Roedd gan Aelod Wladwriaethau mwy cyfoethog fel y DU yr adnoddau i ddelio gyda'u hanghenion rhanbarthol ac fe ddylent weithio o fewnfframwaith Ewropeaidd.

2.28 Yn ariannol, byddai Cymru'n parhau fel y rhanbarth sy'n derbyn y swm uchaf o arian gan yr UE o fewn y DU, ond nid oedd hyn yn golygu y byddai rhanbarthau eraill yn cael eu trin yn waeth, ond bod eu hamgylchiadau yn wahanol.

2.29 Roedd sefyllfa llywodraeth y DU yn debyg i sefyllfa'r Comisiwn Ewropeaidd, gan na allai roi

ffigurau manwl i aelodau ar unrhyw ostyngiad yn y grant bloc gan y DU oherwydd yr ansicrwydd am faint y gyllideb. Yn gyffredinol, roedd yn credu y byddai cynigion y Comisiwn yn cynyddu'r cyfraniad net i'r gyllideb ac y byddai llai o arian ar gyfer gwariant domestig a'r llif ariannol trwy Gymru - ni ellid manylu ymhellach.–Byddai'n bwysig mynd i wraidd y mater erbyn y flwyddyn nesaf. Nododd yr Aelodau na allai San Steffan roi gwarant am yr un cyfnod â'r Comisiwn. Roedd datganoli hefyd yn golygu bod posibilrwydd y byddai gwarant y Llywodraeth yn cael ei dorri ddwywaith yn y dyfodol, ar lefel genedlaethol a lefel rhanbarthol. Nodwyd hefyd y gallai ffactorau megis y gwariant ar y rhyfel yn Iraq effeithio ar gyllideb ddomestig y DU .

2.30 Dywedodd John Neve y byddai Llywodraeth y DU yn ymdrin â'r mater am gyfnod sylweddol, a bod ei amcan Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus rhanbarthol, i gryfhau rhanbarthau a lleihau bylchau, yn amcan tymor canolig - tymor hir. Roedd bwriad i dreulio'r un cyfnod o amser â rhaglennu saith mlynedd y Comisiwn. Yn hanesyddol, roedd Llywodraethau newydd yn parchu ymrwymiadau gwario gweinyddiaethau blaenorol, felly roedd cynsail i hyn. Gellid ystyried arian yr UE fel mantais ychwanegol y polisi rhanbarthol - ar hyn o bryd deuai 75 y cant o'r datblygu rhanbarthol o wariant domestig a dim ond 25 y cant o'r UE. Byddai newidiadau pellach yn golygu llai gan yr UE a mwy gan y DU. Y peth pwysicaf oedd sicrhau ymrwymiad Llywodraeth y DU i bolisi rhanbarthol. Teimlwyd bod agwedd y DU yn ei gwneud yn haws i Gymru benderfynu lle y dylid canolbwyntio adnoddau mewn ffordd hyblyg ac roedd datblygu arweiniad lleol yn well nag arian yr UE. Nododd yr Aelodau mewn trafodaeth yr ymddengys bod gwrthddweud mewn sefyllfa lle yr ystyriwyd bod ariannu yn fantais ychwanegol ond hefyd yn fater cyllidebol mawr. O safbwynt pobl Cymru roedd polisi rhanbarthol yr UE wedi bodyn werthfawr iawn.

2.31 Roedd cyfarfod diweddar o Gomisiwn y Polisi ar Gydlyniant Tiriogaethol Pwyllgor y Rhanbarthau wedi nodi y gallai prif ffrydio rhaglen URBAN olygu ei bod yn bosibl y bydd dinasoedd eraill yn gallu elwa ar gyllid yn y dyfodol - awgrymwyd y gallai Cymru ystyried cynnig dinasoedd eraill ar gyfer derbyn cyllid, er enghraifft Abertawe. Roedd y Comisiwn yn dymuno gweld gweithgareddau adfywio trefi yn datblygu o fewn rhaglenni'r brif ffrwd.

2.32 Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod sut y byddai hyn yn effeithio ar weithrediad Cymhorthion y Wladwriaeth yn y dyfodol. Dywedodd Jon Neve fod y 3ydd adroddiad ar gydlyniant wedi amlinellu'r mater hwn. Roedd angen ymgymryd â gwaith diwygio ac roedd y Llywodraeth yn edrych ymlaen at gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch cynigion y Comisiwn o ran diwygio Cymhorthion y Wladwriaeth y disgwylid iddynt gael eu cyflwyno ym mis Mawrth. Roedd y Comisiynydd Barnier wedi brwydro'n galed i sicrhau yr ymdrinnir â rhanbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu fel yr ymdrinnir â rhanbarthau wedi'u cydgyfeirio o dan gyfundrefn y Cymhorthion Gwladol. Gwelwyd arwyddion cadarnhaol ynghylch y mater hwn yn ddiweddar, ond roedd yn rhy gynnar i wybod y canlyniad ac a fyddai'r Comisiwn yn dymuno gweld map o ardaloedd neu ddull thematig o ymdrin â Chymhorthion Gwladol.

2.33 Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod sut y byddai bwriad y DU i beidio ag ymrwymo i bolisi rhanbarthol yr UE yn effeithio ar Gymru, fel gwlad fechan o fewn yr UE. Nid oedd Trysorlys Ei Mawrhydi yn awyddus i'r fframwaith gael ei ystyried fel ymgais i dynnu'n ôl o bolisi rhanbarthol yr UE

gan mai sail y fframwaith hwnnw oedd agenda Lisbon ac nid oedd y Trysorlys yn awyddus ychwaith i weld lleihad yn nylanwad y DU o ran polisïau Ewropeaidd. Gwerthfawrogai cynrychiolydd y Comisiwn y farn bod gan Gymru rywbeth i'w roi i Ewrop yn ogystal â rhywbeth i'w dderbyn. Credai Iwerddon fod Ewrop wedi bod yn dda iawn wrthi ac roedd yn amser talu yn ôl - hyn, yn hytrach nag arian, fyddai'n sail i Ewrop yn y dyfodol.

2.34 Yr oedd Llywodraeth y DU o'r farn fod mwy i undeb o fewn yr UE na dim ond cyfrannu arian i un ffynhonnell. Nid oedd arwain Aelod-Wladwriaethau newydd i sefyllfa lle roeddent yn cyfrannu at ddatblygiad aelod-wladwriaethau mwy a chyfoethocach fel Yr Almaen yn arwydd o undeb.

2.35 Trafodwyd proses diffinio rhanbarthau NUTS 2 a ffiniau rhanbarthol ynghyd â'r cwmpas a oedd yn bodoli i'w newid yn y dyfodol. Cyfeiriai dogfen y Comisiwn at symleiddio posibl ac at ffiniau llai pendant ac roedd yr Aelodau'n dymuno gwybod a fyddai hyn yn berthnasol i ranbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu yn ogystal â gwledydd sydd wedi'u derbyn. Cadarnhawyd mai'r Aelod-Wladwriaethau oedd yn bennaf gyfrifol am bennu'r rhanbarthau a oedd o fewn ffiniau'r meini prawf ystadegol - roedd yn gymhwysedd cenedlaethol. Roedd Iwerddon wedi creu dau ranbarth newydd y gallai'r cyllid sydd ar gael gan yr UE fod wedi effeithio arnynt.

2.6 Bu i'r Comisiwn annog yr Aelodau i fynegi eu barn ynghylch polisïau rhanbarthol cyn gynted â phosibl i Lywodraeth y DU - roedd yn awyddus i weld cytundeb cynnar a datblygiad technegol y rhaglenni fel eu bod yn dechrau gweithredu yn 2007.

2.37 Roedd Llywodraeth y DU yn awyddus i weld gwerth ychwanegol o ran polisïau - gan ganolbwyntio ar roi agenda Lisbon ar waith o fewn fframwaith polisi mwy cadarn a phroses adolygu cymheiriaid ac o ran cyllid - gan ganolbwyntio ar yr Aelod-Wladwriaethau tlotaf sydd â'r adnoddau gweinyddol ac ariannol lleiaf. Roedd hefyd yn dymuno gweld gwerth ychwanegol o fewn aelod-wladwriaethau cyfoethocach drwy weithgareddau cydweithio ynghylch materion penodol.

2.38 Bu i rai aelodau fynegi siomedigaeth bod pwyslais Llywodraeth y DU ar yr Aelod-Wladwriaethau mwyaf newydd yn golygu nad yw'n rhoi gymaint o sylw i anghenion yr aelod-wladwriaethau presennol, ac yn arbennig o gofio bod yr adroddiad ar gydlyniant yn dangos gwahaniaethau mawr rhwng rhanbarthau'r DU. Dywedodd John Neve fod y gwahaniaeth rhwng cyfraddau CMC gwahanol ranbarthau yn gamarweiniol i raddau. Er enghraifft roedd y bwlch enfawr rhwng nifer trigolion Llundain a nifer y cymudwyr sy'n gweithio yno yn effeithio ar CMC y pen Llundain. Roedd y DU yn rhoi 1.6 Ewro i gyllideb yr UE am bob 1 Ewro a oedd yn dod i law, felly nid oedd sefyllfa bresennol y gyllideb yn ffafriol i'r DU.

2.39 Gofynnwyd am gadarnhad ynghylch a fyddai gwarant Llywodraeth y DU yn cynnwys hyd at 85 y cant o gyllid ar gyfer rhanbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu - ni chyfeiriwyd at hyn yn Natganiad y Gweinidog ar 11 Rhagfyr. Yn ogystal, roedd datganiadau gwrthgyferbyniol o fewn yr ymateb i'r Pwyllgor dyddiedig 19 Rhagfyr ynghylch y trefniadau cyllid arfaethedig ac ynghylch swyddogaeth fformiwla Barnett, ac a fyddai unrhyw ychwanegiadau ariannol yn ychwanegol at

fformiwla Barnett. Os byddai'n cael ei gynnwys o fewn y grant bloc ni fyddai'n parchu anghenion Cymru. Dywedodd Mark Parkinson y byddai Trysorlys Ei Mawrhydi yn seilio ei gyfrifiad ar y meini prawf presennol ynghylch cymhwyster ond ar sail UE 25. Byddai arian ychwanegol tuag at y grant bloc ar gael petai'r ffigurau'n cyfiawnhau hynny.

2.40 Roedd yr Aelodau hefyd yn awyddus i wybod safbwynt Llywodraeth y DU o ran a fyddai'n cydnabod y cysyniad o ranbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu ai peidio neu a fyddai'n cyflwyno cynnig uniongyrchol am ryddhad trosiannol. Nid oedd swyddogion Llywodraeth y DU mewn sefyllfa i roi ateb manwl a chytunwyd y byddent yn ysgrifennu at y Pwyllgor pan fyddai safbwynt y DU ynghylch y mater hwn yn hysbys.

2.41 Nododd Prif Weinidog Cymru na fyddai llawer iawn o arian ar ôl ar gyfer polisïau rhanbarthol, ar ôl ariannu'r Polisi Amaeth Cyffredin, pe byddai’r DU a rhai aelod-wladwriaethau eraill yn llwyddo i bennu uchafswm o 1.0 y cant o lefel ICC (incwm cenedlaethol crynswth) yr UE ar gyfer cyfraniadau’r aelod-wladwriaethau. Y Cyngor Gweinidogion anffurfiol yn Iwerddon fyddai'r cyfle cyntaf i ymateb i gynigion fframwaith Llywodraeth y DU ar ôl cyhoeddi'r 3ydd adroddiad ar gydlyniant. Roedd y Gwyddelod yn awyddus i osgoi trafodaethau ariannol manwl, gan gynnal yn hytrach drafodaeth gyffredinol ynghylch materion polisi allweddol gan gynnwys sut i gyflawni undod, agenda Lisbon a symleiddio systemau rheoli ariannol. Roedd cynigion Llywodraeth y DU yn amlinellu amcanion clir ynghylch diwygio a byddai'n canolbwyntio ar sut i'w cyflawni â chymorth ar raddfa fawr. Teimlai Mr Beschel ei bod yn briodol yn fwy na thebyg i weld lle gallai cysyniadau gael eu cyflawni ac i osod y seiliau yn gynnar. Yn y gorffennol roedd Aelod-Wladwriaethau wedi cysylltu â'r Comisiwn â syniadau nad oeddent yn dymuno eu hariannu - ar ôl i'r trafodaethau ddod i ben mae'n rhaid i Aelod-Wladwriaethau dalu am yr hyn y maent wedi cytuno iddo.

2.42 Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion o'r Comisiwn ac o Lywodraeth y DU am eu cyflwyniadau defnyddiol iawn. Nododd y byddai Prif Weinidog Cymru ynghyd â'r swyddogion a oedd yn bresennol wedi clywed yr egwyddorion a rennir ynghyd â'r pryderon a fynegwyd gan Aelodau, ac y byddai'n bosibl eu hystyried yn y cyfarfod yn Iwerddon y penwythnos hwnnw.

2.43 Cynigid y byddai'r ddau Bwyllgor yn trafod y mater hwn unwaith eto. Cytunodd Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i lunio rhestr o'r pryderon a fynegwyd yn ystod y cyfarfod er mwyn tynnu sylw Llywodraeth Cynulliad Cymru atynt ac er mwyn symbylu trafodaethau yn y dyfodol.

Pwyntiau gweithredu:

- Byddai'r Adran Masnach a Diwydiant yn ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn amlinellu safbwynt Llywodraeth y DU o ran rhanbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu ac o ran rhyddhad trosiannol.
- Byddai cofnod manwl o'r drafodaeth yn cael ei baratoi i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

Egwyl: 10.30 - 10.45

## Eitem 3 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi (10.45 - 11.00)

Papurau:

EUR(2) 01-04(min) - Cofnodion cyfarfod 22 Ionawr

EUR(2) 02-04 (p05) - Rôl Pwyllgorau Craffu Ewropeaidd eraill yn y DU a'u dull o weithredu

3.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

3.2 Nododd yr Aelodau y papur ar Rôl Pwyllgorau Craffu Ewropeaidd eraill yn y DU a'u dull o weithredu. Nododd y Pwyllgor fod gan Bwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol Gweithrediaeth Yr Alban swyddogaeth bwysig o ran rhwydweithio, croesawu dirprwyaethau a hwyluso ymweliadau allanol. Croesawodd y Cadeirydd nifer o arsylwyr o Lithwania a oedd yn ymweld â'r Pwyllgor fel rhan o ymweliad â'r DU. Cyfeiriai'r papur yn ogystal at gynigion yr Ysgrifennydd Tramor i graffu ymhellach ar faterion Ewropeaidd o fewn Senedd y DU, gan gynnwys sefydlu Pwyllgor Sefydlog newydd. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Senedd i holi sut y gellir cynnwys y cyrff deddfwriaethol datganoledig yn y broses hon.

3.3 Mewn perthynas â phwynt 7.6 o'r cofnodion nodwyd bod Panel y Cadeiryddion wedi bod yn gefnogol iawn o'r system o graffu ar ddeddfwriaeth yr UE ac roedd ganddo ddiddordeb mewn gweld y system yn cael ei gwerthuso yn ystod tymor yr Haf.

Pwyntiau gweithredu:

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Senedd i holi sut y gellid cynnwys y cyrff deddfwriaethol datganoledig mewn cynigion i ddatblygu gwaith craffu ar ddeddfwriaeth yr UE o fewn Senedd y DU.

## Eitem 4 - Adroddiad y Gweinidog (11.00 - 11.20)

Papur: EUR(2) 02-04(p06) - Adroddiad y Gweinidog

4.1 Dosbarthwyd calendr mwy diweddar o'r digwyddiadau yng Nghymru i nodi ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn ystod y cyfarfod.

4.2 Dosbarthwyd copi o ddatganiad Prif Weinidog Cymru ynghylch ei ymweliad â De Affrica ar 23-26 Ionawr 2004 i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod.

4.3 Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ychwanegiadau ar lafar i'w adroddiad ysgrifenedig:

- Roedd Prif Weinidog Cymru wedi cyfarfod â chynrychiolydd gwleidyddol o Latfia a oedd wedi chwarae rhan allweddol wrth arwain Latfia i annibyniaeth wleidyddol o'r hen Undeb Sofietaidd, gwaith a olygodd gryn berygl iddo.
- Roedd Llysgennad Kazakhstan wedi ymweld â Chymru. Roedd Kazakhstan yn adnabyddus am ei hadnoddau naturiol cyfoethog, am Baikonur Cosmodrome a chynhyrchiant niwclear, a'r llygredd amgylcheddol sydd wedi deillio ohono. Bu cyfleoedd i Gymru rannu ei harbenigedd ym maes gwyddor yr amgylchedd.
- Roedd cenadaethau masnach i Dde Affrica yn boblogaidd ymysg pobl fusnes yng Nghymru gan fod gan y wlad ymwybyddiaeth dda o Gymru, gan fod ei thrigolion yn gallu siarad Saesneg ac yn meddu ar egwyddorion busnes cyffelyb, a chan fod y gwahaniaeth amser yn dda i fusnesau. Roedd llawer iawn o waith caled wedi'i wneud i geisio sefydlu cysylltiad rhwng ysgol mewn treflan yn Ne Affrica, yr oedd Prif Weinidog Cymru wedi ymweld â hi, ac ysgol yn Y Barri. Defnyddiai'r plant yn yr ysgol eu traddodiadau cerddorol a diwylliannol cadarn i gyfathrebu materion modern sy'n peri pryder iddynt. Roedd yr adnoddau y derbyniodd yr ysgol oddi wrth y DU drwy'r cyswllt, fel offer wedi'i ailgylchu, yn allweddol iddi.
- Yn ogystal â'r cysylltiadau â chynrychiolwyr o senedd Lithwania a grybwyllir o dan eitem 3, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cysylltiad â Gwlad Pwyl er mwyn hwyluso gwaith rhoi eu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ar waith.

4.4 Bu i'r Aelodau drafod gwerth cysylltiadau a threfniadau gefeillio â gwledydd eraill. Nodwyd adborth da ynghylch y cysylltiadau a sefydlwyd rhwng Cymru a Hwngari. Dylid annog cysylltiadau rhwng ysgolion a threfniadau gefeillio eraill yn Ewrop ac yn rhyngwladol, er bod rhai pryderon ynghylch sut y gallai ysgolion dderbyn cyllid ar gyfer sefydlu cysylltiadau o'r fath.

4.5 Er mwyn datblygu cysylltiadau rhwng busnesau a chysylltiadau masnachu, ac wrth i'r Aelodau ymgymryd â'u dyletswyddau cyffredinol o fewn eu hetholaeth, byddai'n ddefnyddiol iddynt wybod ynghylch unrhyw gysylltiadau a threfniadau gefeillio perthnasol mewn ardal. Gallai datblygu rhestr gyflawn gymryd llawer iawn o amser ac efallai y byddai cysylltiadau anffurfiol yn anoddach i'w pennu. Fodd bynnag, byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn archwilio pa wybodaeth y gallai cyrff cenedlaethol ac Ewropeaidd ei darparu am gysylltiadau a threfniadau gefeillio â Chymru, gan gynnwys y rhai a wneir drwy raglen Socrates, a ffynonellau cyllid posibl.

4.6 Nodwyd y cyfarfod ag Ysgrifennydd Cyffredinol Y Comisiwn Ewropeaidd. Roedd secondiadau o'r Cynulliad i'r Comisiwn yn bwysig ac roedd y Pwyllgor wedi gofyn ynghynt am wybodaeth o ran nifer y bobl sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn. Roedd chwe pherson ar secondiad ar hyn o bryd - i UK Rep, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cystadleuaeth, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Ysgrifenyddiaeth Gyffredinol, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Addysg ac roedd un ar secondiad i'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Gweinyddiaeth a Phersonél a oedd bellach yn aelod parhaol o staff y Comisiwn. Roedd y bobl ar secondiad yn bwysig gan eu bod yn gronfa o arbenigwyr ym maes yr UE. Roedd yr angen am ail iaith, o blith ieithoedd eraill yr UE, bellach yn ffactor llai pwysig wrth annog pobl i fynd ar secondiad gan fod Saesneg bellach yn cael ei defnyddio'n fwy mynych ym Mrwsel. Roedd

llawer o bobl yn gyndyn o deithio, ac yn arbennig y rhai sydd â chyfrifoldebau teuluol.

Pwyntiau gweithredu:

- Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn archwilio pa wybodaeth y gellid ei darparu i'r Aelodau ynghylch cysylltiadau a threfniadau gefeillio eraill yng Nghymru.

## Eitem 5 - Craffu ar Ddeddfwriaeth Ewropeaidd Deddfwriaeth (11:20 - 11:50)

Papurau:

EUR(2) 02-04(p7) - Rhestr o ddeddfwriaeth Ewropeaidd

EUR(2) 02-04(p8) - COM(2003) 843 terfynol (Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith)

EUR(2) 02-04(p9) - COM(2003) 770 terfynol (Defnyddio egwyddorion sybsidaredd a chyfrannedd)

5.1 Nododd y Cadeirydd fod yr Aelodau wedi derbyn cyflwyniadau oddi wrth y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith.

5.2 Wrth ystyried y rhestr ddiweddaraf o ddogfennau sydd ar adnau, nodwyd bod dogfennau wedi'u disgrifio fel rhai i'w hystyried neu i'w nodi, ond byddai'n ddefnyddiol nodi er budd yr Aelodau a oedd y dogfennau yn gysylltiedig â chyfarwyddebau neu reoliadau drafft, y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt, neu'n gysylltiedig ag adroddiadau, y dylid rhoi blaenoriaeth lai iddynt. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr ymgynghoriad ynghylch Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith yn ddarn o ddeddfwriaeth ddrafft oherwydd nad oedd y Comisiwn ond wedi dechrau datblygu'r polisi yn ddiweddar ond roedd yn parhau'n ddigon pwysig i gyfiawnhau ystyriaeth ar hyn o bryd. Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i geisio llunio'r rhestr yn y modd hwn.

5.3 Bu i'r Aelodau gymeradwyo'r camau gweithredu a amlinellwyd yn y papur, a chytunwyd y dylid ystyried rhai dogfennau ymhellach.

5.4 Bu i'r Aelodau ystyried dogfen y Comisiwn ynghylch gweithredu'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith. Roedd Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei hystyried gan ddod i'r casgliad bod yr holl Aelodau'n cytuno ag egwyddorion y Gyfarwyddeb, ond byddai'r goblygiadau ymarferol a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau i'w gweld ymhob sector. Roedd angen ystyried ei heffaith ar bob sector cyflogaeth a gwaredu'r cymal tynnu'n ôl lle byddai'n bosibl gwneud hynny. Byddai anawsterau o fewn rhai meysydd, gan gynnwys gwaith cymdeithasol. Nodwyd nad oedd bod 'ar alwad' gartref yn cyfrif fel oriau gwaith ond roedd bod 'ar alwad' yn y gwaith yn cyfrif. Nid oedd cost gwaredu'r cymal tynnu'n ôl yn hysbys. Lle roedd yn bodoli roedd yn rhaid iddo fod yn wirfoddol ac ni ddylai neb gael eu gorfodi i weithio oriau hir. Roedd barn Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn

debyg. Roedd goblygiadau sylweddol gan fod llawer o weithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio oriau hir. Roedd y Gyfarwyddeb yn gam cadarnhaol ymlaen o ran gwireddu nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru i greu amgylchedd gwaith mwy iach i bobl ond roedd cryn ansicrwydd ynghylch sut i reoli proses ei rhoi ar waith.

5.5 Nid oedd Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth na'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon wedi ystyried yr eitem hon mor belled. Cytunodd y Pwyllgor i aros i glywed eu sylwadau ac i ystyried y mater unwaith eto yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth. Byddai'n rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno ei sylwadau i'r Comisiwn erbyn 31 Mawrth.

5.6 Nododd y Pwyllgor y papur COM(2003) 770 terfynol ynghylch sybsidiaredd a chyfrannedd.

Pwyntiau gweithredu:

- Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn tynnu sylw at ddogfennau a oedd yn gysylltiedig â deddfwriaeth ddrafft er mwyn cynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu yr hyn yr oedd yn bwysig ei ystyried.
- Byddai'r Pwyllgor yn ystyried yr ymgynghoriad ynghylch Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith unwaith eto yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2004.

## Eitem 6 - Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ar Ddydd Gwyl Ddewi (11.50 - 12:15)

Papur: EUR(2) 02-04(p10) - Hyrwyddo Cymru yn Rhyngwladol ar Ddydd Gwyl Ddewi

6.1 Roedd tri digwyddiad rhyngwladol yn cael eu cynnal mewn dinasoedd mawr eleni ac roedd y Gangen Cysylltiadau Allanol yn cydweithio'n agos â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar becyn i hyrwyddo'r dydd - byddai 85 y cant o swyddfeydd is-genhadon, llysgenadaethau ac Uchel Gomisiynau yn chwifio baner Cymru a byddai lluniau yn cael eu hanfon yn ôl i'w defnyddio ar gyfer ymgyrchoedd hyrwyddo yn y dyfodol. Roedd y digwyddiadau i Gymry Alltud yn cynnwys dawns yn Singapôr, darlleniad o neges oddi wrth Brif Weinidog Cymru a goleuo Adeilad yr Empire State yn Efrog Newydd am yr ail flwyddyn yn olynol. Gobeithid y byddai'r digwyddiad olaf bellach yn ddigwyddiad blynyddol sefydlog.

6.2 Yn ystod ymweliad Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ag Unol Daleithiau America nodwyd bod llawer o Americaniaid yn awyddus i ystyried eu hunain fel Cymry. Nododd aelod arall yn ystod ymweliad â Fienna fod y Cyngor Prydeinig yno yn gwneud llawer iawn i hyrwyddo Cymru. Albanwr oedd y Llysgennad ac roedd yn awyddus i hyrwyddo'r traddodiad Celtaidd. Bu i'r Aelodau nodi nad oedd yn ymddangos fod gan rai swyddfeydd is-genhadon y deunyddiau hyrwyddo. Roedd hyn yn destun siomedigaeth i'r Gangen Cysylltiadau Allanol gan ei bod wedi dosbarthu deunyddiau marchnata y gellid eu diweddaru i holl swyddogion tramor y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a defnyddiodd ei gwefan fel dull hyrwyddo.

6.3 Roedd swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Efrog Newydd wedi bod yn weithredol ers cryn amser bellach ond disgwylid iddi gael ei lansio'n swyddogol ar 1 Mawrth. Gobeithid y byddai'n cyflawni llawer iawn o ran hyrwyddo Cymru. Cydnabyddwyd bod llawer iawn o Gymry wedi ymfudo i'r Unol Daleithiau yn y 18fed ganrif ac ynghynt, ac yn arbennig i Bensylfania. Roedd hefyd rai cysylltiadau yng Nghanada a'r Dwyrain Pellach, ond nid oedd 'casgliad sylweddol' o Gymry Alltud fel a geir yn Yr Alban ac Iwerddon mewn llawer o ardaloedd. Roedd Prif Weinidog Cymru yn awyddus i wybod ynghylch unrhyw ardaloedd eraill lle gallai'r casgliad o Gymry Alltud gael ei bennu a'i ddatblygu.

Pwyntiau gweithredu:

- Byddai taflen hyrwyddo a ddatblygwyd gan y Gangen Cysylltiadau Allanol yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor.

## Eitem 7 - Y diweddaraf gan aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau ac Aelodau Senedd Ewrop (12:15 - 12:30)

7.1 Dywedodd Rosemary Butler AC mai Llywydd newydd Pwyllgor y Rhanbarthau oedd Peter Straub o Baden-Wurttemburg, sef ardal yr oedd gan y Cynulliad gysylltiadau cryf â hi. Pleidleisiwyd dros Albert Bore fel Is-Lywydd. Croesawyd hyn o ystyried ei waith i ddatblygu cwmpas y sefydliad. Byddai'r etholiadau i'r biwro yn cael eu cynnal ym mis Mehefin. Byddai Dirprwyaeth y DU o Bwyllgor y Rhanbarthau yn cyfarfod yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd. Roedd y ddirprwyaeth wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn cyflwyno gwahanol safbwyntiau.

7.2 Roedd Janet Davies AC wedi mynychu cyfarfod Comisiwn y Polisi ar Gydlyniant Tiriogaethol Pwyllgor y Rhanbarthau a chyfarfod ynghylch Materion Cyfansoddiadol a Materion yn ymwneud â'r UE. Roedd y cyfarfod cyntaf wedi cytuno ar farn ynghylch twristiaeth gynaliadwy a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Cyfarfod Llawn. Roedd y Comisiwn wedi ethol Cadeirydd o Wlad Belg, Mr Van Cauwenberghe. Rhoddodd Graham Meadows o'r Comisiwn gyflwyniad ar y polisi ar gydlyniant.

7.3 Roedd y cyfarfod ar Faterion Cyfansoddiadol a Materion yr UE wedi bwriadu trafod y Cyfansoddiad ond bernid ei bod yn rhy gynnar i wneud hyn. Roedd wedi edrych ar y ddogfen ynghylch polisi rhanbarthol a chredai'r cyfarfod fod gofyn i Bwyllgor y Rhanbarthau weithredu fel postmon ar gyfer cymdeithasau'r Aelod-Wladwriaethau. Roedd un o swyddogion y Comisiwn wedi siarad â Janet Davies AC y tu allan i'r cyfarfod a dywedodd y byddent yn ceisio sicrhau y gorchfygir yr anawsterau hynny.

7.4 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad i'r cyfarfod a nodwyd y byddai cyfarfod nesaf Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cael ei gynnal ar 25 Mawrth 2004.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:15.